



Cyfoeth  
Naturiol  
Cymru  
Natural  
Resources  
Wales

# Ffwng ar eogiaid a sewin

## Heintiau ffwnggaidd ar eogiaid a sewin

Yn ystod blynyddoedd diweddar, rydym wedi derbyn nifer o adroddiadau am eogiaid gwyllt a sewin ac arnynt 'heintiau ffwnggaidd' – mae symptomau nodweddiadol yn dangos darnau gwyn, fel arfer ar y pen ac ar yr esgyll. Rydym hefyd wedi derbyn adroddiadau am bysgod ac arnynt necrosis croenol briwiol, er bod yr achosion o'r clefyd hwn sydd wedi cael eu cadarnhau yn parhau i fod yn brin. Mae'r ddau gyflwr yn gyflyrau naturiol sydd fel arfer yn effeithio ar niferoedd isel o eogiaid a sewin bob blwyddyn, wrth iddynt ddychwelyd i'n hafonydd ni. Gall nifer y pysgod a effeithir arnynt gynyddu o dan amodau penodol, megis cyfnodau pan fydd llifoedd yn isel. Y gwanwyn diwethaf, gwelsom niferoedd bach o bysgod wedi eu heffeithio ledled Cymru, yn enwedig yn afonydd Wysg, Llwchwr, Dyfrdwy a Nanhyfer. Rydym yn monitro'r sefyllfa yn ein holl brif afonydd ac ynddynt eogiaid, ac yn gweithio gyda sefydliadau partner er mwyn cynyddu ein dealltwriaeth o'r clefydau hyn. Cysylltwch â ni ar **03000 65 3000** os ydych yn gweld unrhyw bysgod meirw neu bysgod afiach yn y gwyllt.



Clystyrau o ffwng ar eog gwyllt

Yn aml mae afiechydon ffynggaidd mewn eogiaid a sewin yn peri dryswch ac yn cael eu cam-adnabod fel UDN. Yn nodweddiadol mae afiechydon ffynggaidd yn achosi tyfiant tebyg i wllân cotwm lliw golau ar y pen, y corff neu'r esgyll. Fel arfer mae'r heintiau hyn yn dod yn sgil niwed neu gyfnodau o straen.



Briw UDN ar ben eog

Mae eogiaid a sewin sy'n dod i'n hafonydd i silio yn wynebu sawl her naturiol ac mae'r afiechydon hyn yn gyffredin o'r gwanwyn ymlaen. Os yw'r pysgodyn wedi ei heintio'n ddrwg, gall y bydd rhannau helaeth o'i gorff wedi cael eu gorchuddio. Bydd pysgod sy'n dioddef yn sylweddol yn dod yn swrth a gallant farw o ganlyniad i'r haint.

Mae UDN hefyd yn un o gyflyrau naturiol eogiaid gwyllt a sewin, ond rydym yn dal i fod yn ansicr beth yw'r achos. Bydd pysgodyn sy'n dioddef o UDN fel arfer yn datblygu briwiau llyfn, crwn ar ei ben. Mae UDN wedi ei gofnodi ym Mhrydain ers diwedd yr 1800, a daeth achosion i'r amlwg yn y 1960au a'r 70au. Cafodd llai o lawer o achosion eu cadarnhau yn ddiweddar. Mae'n gyflwr cymhleth a dim ond archwiliadau labordy a all ei gadarnhau. Gall pysgod sy'n dioddef o UDN wella a silio yn llwyddiannus, ond hefyd gallant gael eu heintio gan ffwng a all guddio diagnosis.

Mae'r timau lleol yn gweithio'n agos â staff y Labordy Pysgodfeydd Cenedlaethol yn Brampton i fonitro'r afiechydon hyn a diystyru pathogenau eraill.

**Cysylltwch â ni ar 03000 65 3000 neu [fisheries.wales@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:fisheries.wales@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk) os ydych yn gweld unrhyw eogiaid neu sewin sydd wedi eu heffeithio neu'n marw. Byddem hefyd yn gwerthfawrogi ffotograffau. Bydd hyn yn ein helpu i ganolbwyntio ein hymdrechion monitro ac i asesu maint unrhyw broblemau. Peidiwch â symud unrhyw bysgod sydd wedi cael eu heffeithio o'r afon, a dychwelwch unrhyw bysgod rydych yn eu dal sydd wedi eu heffeithio i'r afon yn ofalus.**